OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 949 (Cy.98)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau Safonau) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi - - - -* | *28 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 70(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**):

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau Safonau) 2006 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000; ac

ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005(**2**).

**Cymhwyso darpariaethau Deddf 2000**

**2.** At ddibenion ymchwiliadau o dan adran 69 o Ddeddf 2000, bydd darpariaethau'r Ddeddf honno fel y'u rhestrir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gymwys fel pe bai unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny—

(a) at swyddog safonau moesegol neu at y swyddog hwnnw yn gyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(b) at Fwrdd Safonau Lloegr yn gyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(c) at Loegr yn gyfeiriad at Gymru;

(ch) at adran 59 yn gyfeiriad at adran 69; a

(d) at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**1**) 2000 p.22. Diwygir adran 70(2) gan baragraff 14(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac mae O.S. 2005/2800 (Cy.199) (C.116) yn cyfeirio at hynny.

(**2**) 2005 p.10.

**Cymhwyso darpariaethau yn Neddf 2000 gydag addasiadau**

**3.** At ddibenion ymchwiliadau o dan adran 69 o Ddeddf 2000, bydd darpariaethau'r Ddeddf honno fel y'u rhestrir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau a ddangosir yn yr Atodlen honno.

**Cymhwyso darpariaethau yn Neddf 2005 gydag addasiadau**

**4.** At ddibenion ymchwiliadau o dan adran 69 o Ddeddf 2000, bydd darpariaethau Deddf 2005 fel y'u rhestrir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau a ddangosir yn yr Atodlen honno.

**Y Gyfraith Ddifenwi**

**5.** At ddibenion y gyfraith ddifenwi, bydd gan unrhyw ddatganiad (boed mewn ysgrifen neu ar lafar) a wneir gan—

(a) aelod o staff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon"); neu

(b) berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon

mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Ran III o Ddeddf 2000 fraint absoliwt.

**Dirymu**

**6.** Dirymir Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) 2001(**3**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (**4**).

*D. Elis-Thomas*
28 Mawrth 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) O.S. 2001/2286 (Cy.174).
(**4**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Erthygl 2

| *Adran* | *Pwnc* |
|---|---|
| Adran 60(1) | Cynnal ymchwiliadau |
| Adran 61 | Y weithdrefn mewn perthynas ag ymchwiliadau |
| Adran 62(1), (2), (3), (5), (6), (8), (9), (10) ac (11) | Ymchwiliadau: darpariaethau pellach |
| Adran 63(3) Cyfyngiadau ar ddatgelu | gwybodaeth |

ATODLEN 2 Erthygl 3

Cymhwyso darpariaethau yn Neddf 2000 gydag addasiadau

**Adran 60(4)**

**1.** Mae adran 60(4) o Ddeddf 2000 (Cynnal ymchwiliadau) yn gymwys fel petai'r canlynol yn cael ei roi yn lle'r is-adran honno—

"(4) The Public Services Ombudsman for Wales—

(a) may not at any time conduct an investigation under section 69 in relation to a member or co-opted member (or former member or co-opted member) of a relevant authority if, within the period of five years ending with that time, the Public Services Ombudsman for Wales has been a member or an officer of the authority or a member of any committee, sub-committee, joint committee or joint sub-committee of the authority;

(b) may, where that Ombudsman is precluded from conducting an investigation by paragraph (a), authorise any person to conduct such an investigation in relation to that member or co-opted member (or former member or co-opted member), to the extent so authorised, under paragraph 13 of Schedule 1 to the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005.".

**Adran 60(5)**

**2.** Bydd adran 60(5) o Ddeddf 2000 (Cynnal ymchwiliadau) yn gymwys fel pe bai—

(a) y geiriau "Where the Public Services Ombudsman for Wales" yn cael eu rhoi yn lle "An ethical standards officer who";

(b) y geiriau "section 69, the Public Services Ombudsman for Wales" yn cael eu rhoi yn lle "section 59";

(c) y canlynol yn cael ei roi yn lle paragraff (a)—

"(a) must disclose the nature of the interest to—

(i) where section 69(1)(a) applies—

(a) the person by whom the allegation is made; and

(b) the member or co-opted member (or former member or co-opted member) against whom the allegation is made;